

'Cynllun ar Dudalen' Gofal Sylfaenol Brys – Gam 1



Pam mae angen y prosiect?

Mae cleifion yn cyflwyno mwyfwy mewn niferoedd uchel mewn practisau meddygon teulu, adrannau y tu allan i oriau/111 ac Adrannau Brys ag anghenion Gofal Brys nad ydynt bob amser yn cael eu diwallu gan y capasiti a'r gwasanaethau presennol. Nododd y rhaglen Braenaru nifer o fodolau gofal sylfaenol brys sydd wedi'u treialu i fodloni'r gofynion cynyddol hyn ac mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i ddefnyddio'r dysgu a'r gwerthuso o'r rhaglen braenaru i ddatblygu model gwasanaeth i Fyrddau Iechyd ei fabwysiadu er mwyn diwallu anghenion eu poblogaethau lleol.

Beth yw cwmpas y prosiect?

Mae'r cwmpasu cychwynnol hyd yma wedi nodi'r meysydd canlynol i'w datblygu:

- Diffinio'r modelau cyflawni a dangosyddion perfformiad allweddol.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd i adeiladu gwasanaeth ar gyfer eu hanghenion lleol.
- Gweithio gyda ffrydiau gwaith eraill i ddatblygu'r model staffio amlddisgyblaethol sy'n cynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth frys, optometryddion, nyrsio cymunedol, iechyd meddwl ac ati.
- Gweithio fel rhan o'r rhaglen gwella Gofal Brys ac Argyfwng genedlaethol.
- Nodi cyfleoedd i adeiladu cynnig gwasanaeth sy'n ateb newidiadau parhaus yn anghenion cleifion yn lleol ac sy'n darparu dull gweithredu cyson 24/7.

Pryd fydd y prosiect yn cael ei gyflawni?

- Diwedd Mai 2021 – Gwerthusiad Braenaru.
- Mehefin 2021 rhaglen wedi'i chytuno ar y cyd gan Fyrddau Iechyd ar gyfer CGSB yng Nghymru.
- Diwedd Gorffennaf 2021 – rhaglen wella ddiffiniedig a set o gamau gweithredu ar gyfer y cynllun gofal brys ac argyfwng cenedlaethol.
- Medi 2021 gwerthusiad o fuddion effaith ar amser GMC a newid llwyth gwaith o ganlyniad i fraenaru.
- Hydref 2021 gwerthusiad cychwynnol o ail gam y cyflwyno.

Y prif bethau y gellir eu cyflawni

Mae'r hyn y gellir ei gyflawni i gychwyn, fesul cam, yn cynnwys:

1. Gwerthuso Modelau Braenaru i greu cynllun gweithredol clir ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth yn gynaliadwy.
2. Cynllun Gweithredol i'w ddatblygu gan bob Bwrdd Iechyd ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys cyson 24/7.
3. Cysylltu gwaith y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys â'r Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng Genedlaethol i helpu i lunio ymateb Gofal Sylfaenol i'r rhaglen wella genedlaethol.
4. Sefydlu model darparu gofal brys ar gyfer gwasanaethau mewn gofal sylfaenol i ddiwallu anghenion amrywiol y boblogaeth.

Meini Prawf Llwyddiant/Canlyniadau:

- Cynyddu'r capasiti i ateb y galw am wasanaethau gofal sylfaenol brys yn gyson.
- Set glir o ganllawiau clinigol ar gyfer cyflwyniadau a chanlyniadau priodol sy'n cynnwys llif cleifion drwy 111 craidd ac '111 yn Gyntaf'.
- Gwella mynediad at Wasanaethau Gofal Sylfaenol brys.
- Model Gofal Sylfaenol Brys clir a diffiniedig i Gymru
- Datblygu ymateb integredig i'r heriau mewn Gofal Brys ac Argyfwng – cysylltiadau clir â'r rhaglen genedlaethol.
- Gwell defnydd o Adnoddau Gofal Sylfaenol a staff Timau Amlddisgyblaethol – h.y. cysylltu ag amser a dreulir ar gyflyrau hirdymor ochr yn ochr â gofal brys yr un diwrnod.

Pwy fydd yn cyflwyno'r prosiect?

Arweinydd CGSCh: Nick Wood

Cyd-Arweinydd: Richard Bowen

Enw Rheolwr y Prosiect: Jane Daly

Adolygiad diwethaf: Ionawr 2022

